Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD, DOGFENNU

# Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): asesiad o’r effaith ar fioamrywiaeth

Asesiad o’r effaith ar fioamrywiaeth y Bil ar gyfer diwygio'r Senedd.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 18 Medi 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 18 Medi 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/bil-senedd-cymru-aelodau-ac-etholiadau-asesiad-or-effaith-ar-fioamrywiaeth-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

**Cyflwyniad**

**Gwreiddio bioamrywiaeth**

**Tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n monitro**

**Llywodraethu a chefnogaeth**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/bil-senedd-cymru-aelodau-ac-etholiadau-asesiad-or-effaith-ar-fioamrywiaeth-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cyflwyniad

Mae Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru yn cynnwys chwe amcan i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth y dylid eu defnyddio i asesu'r effeithiau ar fioamrywiaeth. Gallant hefyd helpu i ddatblygu ac arwain camau gweithredu i gydymffurfio â dyletswydd A6. Maent wedi cael eu symleiddio fel set o gwestiynau i'ch tywys drwy'r asesiad effaith.

Dylid ystyried y cwestiynau hyn p'un a oes gan eich cynnig elfen rheoli tir ai peidio, er y bydd rhai yn arbennig o berthnasol os yw eich maes polisi yn ymwneud â rheoli tir mewn unrhyw ffordd.

Dylech fabwysiadu dull rhagweithiol o ystyried yr effeithiau posibl ar fioamrywiaeth – mae hwn yn un maes lle mae canlyniadau anfwriadol yn aml yn cael eu hanwybyddu, naill ai oherwydd diffyg ymwybyddiaeth, neu oherwydd ei bod yn anodd neilltuo gwerth ariannol i fioamrywiaeth.

Ar ben hynny, mae'r ddyletswydd yn mynnu ein bod yn chwilio'n gadarnhaol am gyfleoedd i gynnal a gwella bioamrywiaeth, yn uniongyrchol (lle mae'r ymyriad yn ymwneud â rheoli tir neu adeiladu), ac yn anuniongyrchol (er enghraifft, lle gallai fod cyfle i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd bioamrywiaeth). Wrth gwblhau'r asesiad hwn, ystyriwch sut mae gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau yn cyfrannu'n gyfatebol at nodau eich polisi neu brosiect.

Ystyriwch Gwestiynau 1 – 9 ar gyfer POB polisi.

# Gwreiddio bioamrywiaeth

## 1. Sut bydd eich cynnig yn integreiddio bioamrywiaeth i'r

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/bil-senedd-cymru-aelodau-ac-etholiadau-asesiad-or-effaith-ar-fioamrywiaeth-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## broses o wneud penderfyniadau?

Ydych chi wedi ystyried yr effeithiau a’r cyfleoedd cadarnhaol ar gyfer gweithredu dros fioamrywiaeth yn ystod camau cynnar o feddwl neu ddylunio prosiect?

- Pa effeithiau fydd caffael yn eu cael ar fioamrywiaeth, gan gynnwys bioamrywiaeth fyd-eang?
- A yw’r cynnyrch yn dod o ffynonellau cynaliadwy?
- A yw eich prosiect yn cynnwys defnyddio deunyddiau neu arferion sy’n niweidiol i fioamrywiaeth?

Yn gyffredinol, bydd mesurau i gynyddu maint y Senedd yn gwella ei allu i graffu ar bolisi a deddfwriaeth, gan gynnwys archwilio'r canlynol:

- i ba raddau y mae bioamrywiaeth wedi’i integreiddio i’r broses o wneud penderfyniadau
- dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth Llywodraeth Cymru o bwysigrwydd bioamrywiaeth, a
- chapasiti Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithredu dros fioamrywiaeth.

A yw’n ei gwneud yn ofynnol i bartneriaid a buddiolwyr ystyried yr effeithiau a’r cyfleoedd ar gyfer gweithredu cadarnhaol ar gyfer bioamrywiaeth yn ystod camau cynnar y broses o feddwl a dylunio prosiectau?

- A yw ystyried bioamrywiaeth yn un o ofynion ceisiadau am gyllid a manylebau prosiectau?
- A yw eich gwerthusiad o’r rhain yn ceisio sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei chynnal a’i gwella?

Nod y Senedd yw bod yn esiampl o ran cynaliadwyedd a pherfformiad amgylcheddol. Fel un o’r prif sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru, mae’n cydnabod ei gyfrifoldeb i leihau ei effaith ar yr amgylchedd a gweithredu mewn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/bil-senedd-cymru-aelodau-ac-etholiadau-asesiad-or-effaith-ar-fioamrywiaeth-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

ffordd amgylcheddol gyfrifol yn ei holl weithgareddau.

Mae'r Senedd yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar Gynaliadwyedd, sy'n cynnwys Bioamrywiaeth. Mae'r adroddiad blynyddol yn crynhoi perfformiad amgylcheddol y Senedd, cynnydd yn erbyn targedau dros y flwyddyn flaenorol, ac yn darparu gwybodaeth am ei chynlluniau ar gyfer y dyfodol. Mae **adroddiad blynyddol Comisiwn y Senedd ar gyfer 2021-2022** yn nodi bod y Comisiwn wedi gwneud cynnydd cadarnhaol o ran bioamrywiaeth, gan gynnwys:

> “ cynnydd sylweddol yn ardal gardd Tŷ Hywel, gan ddefnyddio'r hyn a arferai fod yn ardal wedi'i gorchuddio â cherrig i ychwanegu planhigion newydd sy'n gyfeillgar i beillwyr ac ail bwll bach i gynnal infertebratau. Rydym hefyd yn ymchwilio i allu'r safle i gynnal draenogod, er mwyn helpu i leihau dirywiad yn nifer yr anifeiliaid hyn. Mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, a chyda chefnogaeth y Comisiynydd Datblygu Cynaliadwy, Janet Finch-Saunders AS, rydym wedi cyflwyno ardal 'Gwesty Trychfilod' newydd i ardd Tŷ Hywel yn ddiweddar. Mae'n cynnwys blychau trychfilod i greaduriaid fel gwenyn unigol a phryfed cop i nythu a gaeafu ynddynt, yn ogystal â bod yn ardal lle gellir gadael boncyff coeden Nadolig y Senedd i fod yn gynefin i bryfed. Mae prosiect Gwenyn y Pierhead wedi parhau drwy gydol y pandemig ac mae'r cnwd mêl cyffredinol wedi cynyddu eto eleni. Heb dynnu dim o'r trydydd cwch gwenyn newydd, cynyddodd y ddau arall eu cynhyrchiant mêl bron i 30% eleni. ”

Fel y nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, disgwylir i'r newidiadau yn seilwaith ffisegol y Senedd sy'n darparu ar gyfer nifer cynyddol o Aelodau fod yn rhai mewnol. Ni ragwelir y bydd hyn yn cael effaith negyddol ar gynefinoedd neu rywogaethau drwy newidiadau mewn defnydd tir nac yn cael effaith negyddol ar Strategaeth Carbon Comisiwn y Senedd, a oedd wedi ymrwymo'n flaenorol i ddyblu'r mannau gwyrdd ar yr ystad.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/bil-senedd-cymru-aelodau-ac-etholiadau-asesiad-or-effaith-ar-fioamrywiaeth-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Ni ragwelir y bydd newidiadau sy’n deillio o Fil Senedd Cymru yn effeithio’n negyddol ar gynnydd cadarnhaol a adroddwyd gan y Senedd.

## 2. A yw eich cynnig wedi sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei hystyried mewn penderfyniadau busnes?

- A yw wedi ystyried costau oes gyfan sy’n cynnwys gwerth bioamrywiaeth ac adnoddau naturiol yn y dadansoddiad cost a budd, hyd yn oed os yw hon yn broses anffurfiol?
    - Ydych chi wedi meddwl sut gall gwella bioamrywiaeth helpu i gyflawni ar draws gweithgareddau Llywodraeth Cymru, er enghraifft, i gefnogi gweithgareddau hamdden egnïol, addysg, atal llifogydd, a thyfu bwyd yn lleol? (Er enghraifft, mae toeau gwyrdd yn helpu i ddarparu cynefinoedd bywyd gwyllt, lleihau’r defnydd o ynni a gwella systemau draenio.)
- A yw wedi ystyried costau hirdymor dirywiad mewn bioamrywiaeth ac adnoddau naturiol, a’r potensial ar gyfer arbedion ar gyfer iechyd a llesiant, perygl llifogydd ac ati?
- A all annog partneriaid a buddiolwyr i ystyried y costau a’r arbedion hyn?

Disgwylir i’r newidiadau yn seilwaith ffisegol y Senedd sy’n darparu ar gyfer nifer cynyddol o Aelodau fod yn rhai mewnol. Nid yw’r cynnig hwn yn effeithio’n sylweddol ar fioamrywiaeth.

## 3. Sut mae eich cynnig yn gwella dealltwriaeth ac yn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd bioamrywiaeth, gan annog eraill i weithredu?

- Allwch chi weithio gyda phartneriaid a buddiolwyr i hyrwyddo dealltwriaeth o fioamrywiaeth?
- Allwch chi hyrwyddo manteision mynediad at fioamrywiaeth drwy ddarparu

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/bil-senedd-cymru-aelodau-ac-etholiadau-asesiad-or-effaith-ar-fioamrywiaeth-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

nwyddau a gwasanaethau cyhoeddus megis gofal cymdeithasol, datblygu cymunedol, iechyd a hamdden?
- Allwch chi ddarparu, neu ddod o hyd i, hyfforddiant arbenigol lle bo angen?
- Allwch chi gysylltu â strategaethau a mentrau cyfathrebu eraill ar gyfer bioamrywiaeth, er enghraifft cynlluniau gwobrwyo, digwyddiadau lleol?

Fel y nodwyd yn flaenorol, bydd mesurau i gynyddu maint y Senedd yn gwella ei allu i graffu ar bolisi a deddfwriaeth, gan gynnwys archwilio'r canlynol:

- i ba raddau y mae bioamrywiaeth wedi'i integreiddio i'r broses o wneud penderfyniadau
- dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth Llywodraeth Cymru o bwysigrwydd bioamrywiaeth, a
- chapasiti Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithredu dros fioamrywiaeth.

Y tu hwnt i hyn, nid yw'r cynnig yn effeithio'n uniongyrchol ar wella na chodi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd bioamrywiaeth. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, mae'r Senedd yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar Gynaliadwyedd, sy'n cynnwys adrodd ar gynaliadwyedd er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ar gyfer bioamrywiaeth.

# Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n monitro

## 4. Ydych chi wedi defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael o fioamrywiaeth i lywio eich cynnig a'r asesiad hwn?

Rhaid i chi ystyried:

- y rhestrau o rywogaethau a chynefinoedd pwysig iawn a gyhoeddwyd o dan Adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru)

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/bil-senedd-cymru-aelodau-ac-etholiadau-asesiad-or-effaith-ar-fioamrywiaeth-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- Yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol
- unrhyw ddatganiad ardal perthnasol a gyhoeddir gan CNC.

Os yw eich cynnig yn ymwneud ag adeiladu neu reoli tir yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, dylai gyfeirio at gofnodion bioamrywiaeth sydd ar gael drwy:

- Canolfannau Cofnodion yr Amgylchedd Lleol
- Atlas o Gymru Fyw
- Lle

Y tu hwnt i'r effeithiau cyffredinol sy'n deillio o gynyddu capasiti'r Senedd i graffu, gan gynnwys mewn perthynas â bioamrywiaeth, nid yw'r cynnig hwn yn effeithio'n sylweddol ar fioamrywiaeth.

## 5. Ydych chi wedi defnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf am yr effeithiau allweddol ar fioamrywiaeth i wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth?

- Ydych chi'n gwybod beth sy'n sbarduno newid a ffactorau negyddol allweddol a allai godi o'ch cynnig?
- Ydych chi'n fodlon nad yw'r rhain yn berthnasol neu eu bod wedi cael eu hosgoi?

Y tu hwnt i'r effeithiau cyffredinol sy'n deillio o gynyddu capasiti'r Senedd i graffu, gan gynnwys mewn perthynas â bioamrywiaeth, nid yw'r cynnig hwn yn effeithio'n sylweddol ar fioamrywiaeth.

## 6. A all eich cynnig gyfrannu at ein corff gwybodaeth ar gyfer bioamrywiaeth?

- A all gefnogi mentrau gwyddoniaeth sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion, a

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/bil-senedd-cymru-aelodau-ac-etholiadau-asesiad-or-effaith-ar-fioamrywiaeth-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

chynlluniau monitro?
- Ydych chi wedi sicrhau bod unrhyw ddata bioamrywiaeth sy’n cael ei gasglu ar gael i’r cyhoedd?

Y tu hwnt i’r effeithiau eang sy’n deillio o gynyddu capasiti’r Senedd i graffu, gan gynnwys mewn perthynas ag adeiladu ein corff gwybodaeth ar gyfer bioamrywiaeth, ni fydd y cynnig yn cyfrannu at ein corff gwybodaeth ar gyfer bioamrywiaeth.

# Llywodraethu a chefnogi’r gwaith o weithredu dros bioamrywiaeth

## 7. A all eich cynnig gefnogi gweithredu dros fioamrywiaeth mewn unrhyw ffordd?

- A all staff gymryd rhan mewn camau ymarferol?
- Allwch chi ariannu camau gweithredu’n uniongyrchol, neu’n anuniongyrchol?
- Allwch chi gefnogi partneriaethau a/neu gydweithio ar gyfer gweithredu dros fioamrywiaeth yn lleol ac yn y gymuned?

Y tu hwnt i’r effeithiau cyffredinol sy’n deillio o gynyddu capasiti’r Senedd i graffu, gan gynnwys mewn perthynas â bioamrywiaeth, nid yw’r cynnig hwn yn effeithio’n sylweddol ar fioamrywiaeth.

## 8. A all eich cynnig helpu i feithrin capasiti ar gyfer gweithredu dros fioamrywiaeth?

- Allwch chi gefnogi’r gwaith o gaffael sgiliau a hyfforddiant?
- A yw eich cynnig yn sicrhau’r lefel briodol o gymwysterau i’r rhai sy’n

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/bil-senedd-cymru-aelodau-ac-etholiadau-asesiad-or-effaith-ar-fioamrywiaeth-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

ymwneud â phenderfyniadau ynghylch bioamrywiaeth?
- A all eich cynnig ariannu meithrin gallu ar gyfer gweithredu dros fioamrywiaeth?

Y tu hwnt i'r effeithiau eang sy'n deillio o gynyddu capasiti'r Senedd i graffu, gan gynnwys mewn perthynas â bioamrywiaeth, nid yw'r cynnig yn helpu i feithrin capasiti ar gyfer gweithredu dros fioamrywiaeth.

## 9. Ydych chi wedi cofnodi penderfyniadau a chamau gweithredu i gynnal a gwella bioamrywiaeth?

Amherthnasol.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/bil-senedd-cymru-aelodau-ac-etholiadau-asesiad-or-effaith-ar-fioamrywiaeth-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.